**DEDDF DRWYDDEDU 2003**
TRWYDDED ANHEDDAU

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

**ydded anheddau**

**PRM 0003 (27/06/2017)**

**- Manylion am y safle**

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad**<br><br>**PRINCE OF WALES**<br><br>**1 STRYD Y FRENHINES** | |
| **Tref bost**<br>**ABERAERON** | **Cod Post**<br>**SA46 0BY** |
| **Rhif ffôn**<br>**01545 574 698** | |

**Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau**

**NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED**

**Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded**

**ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDIO:**
**DRAMAU**
**FFILMIAU**
**CHWARAEON DAN DO**
**CERDDORIAETH FYW**
**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO**
**PERFFORMIADAU O DAWNS**
**UNRHYW BETH SY'N DEBYG I CERDDORIAETH FYW neu CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO neu PERFFORMIADAU O DDAWNS**

**DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS**

**CYFLENWI ALCOHOL**

**Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**

**ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDIO:**
**DRAMAU**
**FFILMIAU**
**CHWARAEON DAN DO**
**CERDDORIAETH FYW**
**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO**
**PERFFORMIADAU O DAWNS**
**UNRHYW BETH SY'N DEBYG I CERDDORIAETH FYW neu CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO neu PERFFORMIADAU O DDAWNS**

**HOLL GWEITHGAREDDAU UCHOD:**
**SUL: 1200 – 2300**
**LLUN – IAU: 1000 – 2300 yn ddyddiol**
**GWE a SAD: 1000 – 2400 yn ddyddiol**

**DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS**
**SUL – IAU: 2300 – 2400 yn ddyddiol**
**GWE a SAD: 2300 - 0100**

**CYFLENWI ALCOHOL**
**SUL: 1200 – 2400**
**LLUN – IAU: 1000 – 2400 yn ddyddiol**
**GWE a SAD: 1000 – 0100**

**AMSERAU ANSAFONOL**
**O ddechrau oriau ar Noswyl Calan tan diwedd oriau Dydd Calan**
**Penwythnos Gwyl y Banc h.y Gwe, Sad, Sul a Llun – Un awr ychwanegol**

---

**Oriau agor y safle**

**SUL: 1200 – 0030**
**LLUN – IAU: 1000 – 0030 yn ddyddiol**
**GWE a SAD: 1000 – 0130**

**AMSERAU ANSAFONOL**
**O ddechrau oriau ar Noswyl Calan tan diwedd oriau Dydd Calan**
**Penwythnos Gwyl y Banc h.y Gwe, Sad, Sul a Llun – Un awr ychwanegol**

**Atodiad 2 – Amodau sy’n gyson â’r Rhestr weithredu**

**Cyffredinol – pob un o’r pedwar amcan trwyddedu**
Mae’r staff wedi cael cyfarwyddyd ynghylch termau Deddf Trwyddedu 2003.
Mae goleuadau allanol wedi’u gosod ac mae’r safle wedi’i oleuo’n dda.

**b) Atal troseddau ac anhrefn**
Byddai’r ymgeisydd yn annog y tenantiaid i fod yn aelodau gweithredol o gynllun Pubwatch, ac i gefnogi mentrau lleol/cenedlaethol.
Nid yw’r dafarn yn cynnal ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifol.
Dylid annog cwsmeriaid i beidio â dod mewn ar ôl hanner nos (ac eithrio ysmygwyr)
Ni ddylid mynd ag unrhyw boteli/gwydrau o’r ardd gwrw
Bydd bwyd ar gael

**c) Diogelwch cyhoeddus**
Pecyn Cymorth Cyntaf ar y safle
Arwyddion priodol/goleuadau argyfwng yn eu lle.
Pob defnydd ffabrig wedi’i drin i wrthsefyll tân, diffoddwyr tân yn eu lle
Digon o seddi ar gael.
Toiledau anabl ar gael.
Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ei le.
Goleuadau allanol wedi’u gosod.

**e) Amddiffyn plant rhag niwed**
Gofynnir am brawf oedran: gwirio pasbort, trwydded yrru.
Dim adloniant oedolion ar y safle.
Dewis eang o ddiodydd di-alcohol a bwyd ar gael.
Plant dan 14 oed i adael y safle erbyn 21.00 oni bai eu bod yn mynychu digwyddiad.

**Atodiad 3 – Amodau atodol yn dilyn gwrandawiad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod Cyfryngu.**

**Cyfarfod cyfryngu a gynhaliwyd ym Mhenmorfa, Aberaeron ar 27ain Chwefror 2008 am 11.00am.**
**Presennol: Bragdy Felin-foel (Ymgeiswyr) a Mr John Evans (Swyddog Trwyddedu'r Heddlu)**

**MATERION A GYTUNWYD:**

1. Mae system CCTV ddigidol lawn wedi'i gosod ar y safle. Mae'r system yn cwrdd â safonau Heddlu Dyfed Powys yn yr ystyr:

a) bod y delweddau'n cael eu cadw am 30 diwrnod
b) bod copïau ar gael yn ddi-oed ar gais yr heddlu. Mae camerâu ymhob rhan o'r safle, yn yr ardd gwrw, ac mae un uwchlaw'r drws ffrynt.

2. Bydd yr ymgeiswyr yn sicrhau bod y tenantiaid yn aelodau gweithredol o'r grŵp Pubwatch yn Aberaeron.

3. Ni chaniateir mynediad/ail-fynediad ar ôl hanner nos.

4. Yr Ardd Gwrw – dim cwsmeriaid i yfed alcohol yn yr ardd gwrw ar ôl 10.00pm a bydd yr ardd gwrw'n cau am hanner nos bob dydd.

5. Bydd y Goruchwyliwr Safle Dynodedig neu'i asiant yn patrolio'r safle bob awr o leiaf i sicrhau nad oes gormod o sŵn.

6. Bydd unrhyw rai sy'n gwrthod ymateb dro ar ôl tro i'n cais i beidio â bod yn swnllyd yn cael eu gwahardd o'r safle.

7. Byddwn yn cydgysylltu â'n Goruchwyliwr Safle Dynodedig ac yn cyflwyno cynnig ar atodlen ar wahân o fewn 7 diwrnod mewn perthynas â staff drysau.

Llofnodwyd y ddogfen gan y ddwy ochr. Tynnwyd y sylwadau yn ôl.

**Gwrandawiad a gynhaliwyd yn Ystafell Aeon, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ar 25ain Mawrth 2008 am 2.30pm**

**Penderfyniad**

Newid amseroedd yn unol â'r atodlen – cynnwys yn y drwydded

**Telerau ac Amodau**

Y telerau/amodau a osodwyd yn yr Atodlen Cyfryngu ddyddiedig 27/02/2008 fel y'u diwygiwyd gan lythyr y Swyddogion Trwyddedu dyddiedig 12/03/2008 i'w hymgorffori yn y drwydded, ar wahân i'r diwygiadau pellach canlynol:-

- ii) CCTV ychwanegol ger y fynedfa/allanfa i'r ardd gwrw o'r stryd
- ii) Pubwatch – gan gynnwys aelodaeth o'r cynllun BOBBY
- iii) Newid amser mynediad/ail-fynediad i 11.00pm
- iv) Yr amod (iv) presennol i'w ddisodli gyda: Yr Ardd Gwrw – dim cwsmeriaid i yfed alcohol yn yr ardd gwrw ar ôl 10.00pm a'r ardd gwrw i gau am hanner nos bob dydd
- v) Patrolio – i ddigwydd bob hanner awr

**Amodau Ychwanegol**

1. Arwyddion i'w gosod ar y safle'n cyfeirio cwsmeriaid i'r ardd gwrw. Yr arwyddion i'w gosod o fewn 14 diwrnod o'r 25ain Mawrth 2008 (h.y. erbyn 08/04/2008)
2. Hysbysiadau amlwg, clir a darllenadwy i'w gosod ger pob mynedfa'n gofyn i'r cyhoedd i barchu anghenion y trigolion lleol a gadael y safle a'r ardal yn dawel. Yr arwyddion i'w gosod o fewn 14 diwrnod o 25ain Mawrth 2008 (h.y. erbyn 08/04/2008)
3. Yr holl ddrysau a ffenestri ar y safle i fod ar gau o 11.00pm ymlaen.
4. Perfformiadau byw i'w cyfyngu i ddau berfformiad ar y mwyaf ar unrhyw un adeg, ar wahân i Carioci.
5. Ni ddylid mynd ag unrhyw wydr oddi ar y safle h.y. dim alcohol na diodydd eraill i'w cludo oddi ar y safle mewn cynwysyddion agored.

